# ATODLEN 1

## CORFF LLAIS Y DINESYDD AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## RHAN 6

### MATERION ARIANNOL

*Cyllid*

18 Caiff Gweinidogion Cymru wneud taliadau i Gorff Llais y Dinesydd o unrhyw symiau, ac ar unrhyw adegau, ac yn unol ag unrhyw amodau, y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl eu bod yn briodol.

*Swyddog cyfrifyddu*

19 (1) Prif weithredwr Corff Llais y Dinesydd yw ei swyddog cyfrifyddu.

(2) Mae gan y swyddog cyfrifyddu, mewn perthynas â chyfrifon a chyllid y Corff, y cyfrifoldebau a bennir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru.

(3) Ymhlith y cyfrifoldebau y caniateir eu pennu mae—

(a) cyfrifoldebau mewn perthynas â llofnodi cyfrifon;

(b) cyfrifoldebau am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid y Corff;

(c) cyfrifoldebau am ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd y Corff o'i adnoddau;

(d) cyfrifoldebau sy'n ddyledus i Weinidogion Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu ei Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

*Cyfrifon*

20 (1) Rhaid i Gorff Llais y Dinesydd, ar gyfer pob blwyddyn ariannol—

(a) cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â'r cyfrifon hynny, a

(b) llunio datganiad o gyfrifon.

(2) Rhaid i bob datganiad o gyfrifon gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru o ran—

(a) yr wybodaeth sydd i'w chynnwys ynddo,

(b) y modd y mae'r wybodaeth i'w chyflwyno, ac

(c) y dulliau a'r egwyddorion y mae'r datganiad i'w lunio yn unol â hwy.

(3) Heb fod yn hwyrach na 31 Awst ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Corff gyflwyno ei ddatganiad o gyfrifon i—

(a) Gweinidogion Cymru, a

(b) Archwilydd Cyffredinol Cymru.

*Archwilio*

21 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â phob datganiad o gyfrifon a gyflwynir i Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Gorff Llais y Dinesydd o dan baragraff 20(3)(b).

(2) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio'r datganiad o gyfrifon, ei ardystio ac adrodd arno.

(3) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru, cyn diwedd y cyfnod o 4 mis sy'n dechrau â'r diwrnod pan gyflwynir y datganiad o gyfrifon ("y cyfnod o 4 mis"), osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru—

(a) copi o'r datganiad ardystiedig a'r adroddiad, neu

(b) os nad yw'n rhesymol ymarferol cydymffurfio â pharagraff (a), ddatganiad i'r perwyl hwnnw, y mae rhaid iddo gynnwys rhesymau o ran pam mae hyn yn wir.

(4) Pan fo Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi gosod datganiad o dan is-baragraff (3)(b) mewn perthynas â datganiad o gyfrifon, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol osod copi o'r datganiad ardystiedig a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod o 4 mis.

(5) Wrth gydymffurfio ag is-baragraff (2) rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn benodol, archwilio a aed, ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef, yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n llywodraethu'r gwariant hwnnw, ac adrodd ar hynny.